OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 No. 1983

## Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013

*Y gosb*

**Swm y gosb**

**4.** Dyma swm y gosb sydd i'w dalu—

(a) £60, pan fo'r swm yn cael ei dalu cyn pen 28 o ddiwrnodau ar ôl cael yr hysbysiad cosb; neu

(b) £120, pan na fo paragraff (a) yn gymwys ond pan fo'r swm yn cael ei dalu cyn pen 42 o ddiwrnodau ar ôl cael yr hysbysiad cosb.

**Y cyfnod ar gyfer talu'r gosb**

**5.** Cyn pen 42 o ddiwrnodau ar ôl cael yr hysbysiad cosb yw'r amser erbyn pryd y mae'r gosb i'w thalu(**1**).

**Talu'r gosb**

**6.**—(1) Mae'r gosb yn daladwy i'r canlynol—

(a) yr awdurdod lleol y mae plentyn y derbynnydd yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a leolir yn ei ardal;

(b) yr awdurdod lleol y mae'r plentyn yn preswylio yn ei ardal, pan na fo'r plentyn, ar yr adeg y rhoddir yr hysbysiad cosb, yn ddisgybl cofrestredig mewn unrhyw ysgol, p'un a yw hynny oherwydd gwaharddiad parhaol neu fel arall.

(2) Mae tystysgrif yr honnir ei bod wedi ei llofnodi gan swyddog priodol awdurdod lleol i'r perwyl bod derbynnydd hysbysiad cosb wedi talu neu nad yw wedi talu'r swm sy'n ddyledus ganddo ar y dyddiad a nodir ar y dystysgrif neu cyn y dyddiad hwnnw, yn dderbyniol fel tystiolaeth mewn achosion cyfreithiol ac yn dystiolaeth o'r materion sydd wedi eu nodi arni.

(**1**) Os telir y gosb o fewn y cyfnod hwn, ni ellir collfarnu'r derbynnydd o'r drosedd o dan adran 444A(4) o Ddeddf Addysg 1996 (p.56) y mae'r hysbysiad yn ymwneud â hi.